

Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)

Cyfarfod Eithriadol

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)

26 Medi 2018

10:30 – 15:30

Nodiadau

Yn Bresennol

Enw	Sefydliad	Enw	Sefydliad
Peter Davies (PD) (Cadeirydd)	PD Partnership	Chris O'Brien	RSPB
Gill Bell	MCS	Nick O'Sullivan	Cadeirydd WMFAG
Wendy Dodds	MCS	David Jones	PCF/MEW
Phil Hollington	Cragen	Phil Coates (PJC)	LIC (cyflwyniad)
Natalie Frost	ABP (cyflwyniad)	Adrian Judd (AJ)	CEFAS (cyflwyniad)
David Harding	BMAPA	Sarah Bound (SB)	LIC (cyflwyniad)
Nick Barcock	DCWW	Pat Cowdy (PC)	LIC (cyflwyniad)
Neville Rookes	CLILC	Rachel Mulholland (RM)	CEFAS (cyflwyniad)
Lee Murray	CNC	Lucie Skates (LS)	CNC (cyflwyniad)

Ymddiheuriadau

David McDermott (OVW), Mark Russell (BMAPA), Mark Simmonds (BPA), Rachel Sharp (WTW), Trevor Jones (BM), Peter Barham (SUDG), Jetske Germing (PCF), Lucy Taylor (SEP), Deanna Groom (RCAHMW)

1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd PD y grŵp a rhoi cyflwyniad byr. Atgoffodd yr aelodau fod WMAAG wedi gofyn am gael cyflwyniad manylach ar CMCC pan fyddai hynny'n gyfleus, hynny yn dilyn y crynodeb a gafwyd ym mis Tachwedd 2017. Cyflwynodd yr aelodau eu hunain.

2. Trosolwg

Rhoddodd PJC drosolwg i'r grŵp am CMCC a'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddo.

3. Yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yma a'r camau nesaf (Papur 1 a 2)

Rhoddodd SB adroddiad i'r grŵp am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r prif themâu. Disgrifiodd SB y trafod sydd wedi bod â'r rhanddeiliaid gan gynnwys Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid CMCC i ystyried y themâu hynny. Cyflwynodd SB amserlen bosib ar gyfer mabwysiadu CMCC a rhoi disgrifiad bras o'r ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ei roi ar waith.

Dywedodd yr aelodau fod y targed i fabwysiadu'r cynllun yng ngwanwyn 2019 yn un uchelgeisiol. Roedd yr aelodau'n teimlo hefyd y byddai'n fwy priodol i Ysgrifennydd y Cabinet gynnal yr ymchwiliad annibynnol y cafod ei gynghori i'w gynnal ar ôl ailddrafftio'r cynllun yn hytrach nag ym mis Medi.

4. Y Fframwaith Cynllunio (papur 3)

Cyflwynodd SB bapur i'r aelodau, yn disgrifio'r newidiadau strwythurol a gynigir i CMCC. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r MPSRG.

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r newidiadau a byddant yn anfon sylwadau pellach at swyddogion (os bydd angen) ar ôl cael amser i'w hystyried ymhellach.

5. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Esboniodd LS y sefyllfa ddiweddaraf wrth aelodau am Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR).

Mae'r rhan fwyaf o'r ymateb hyd yn hyn i CMCC drafft wedi bod am y cydbwysedd neu lefel y flaenoriaeth i ystyriaethau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi bod yn cyfrannu at drafodaethau am hyn gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys mewn cyfarfod ar 1 Awst lle cafwyd trafodaeth fanwl.

Bydd CNC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu tystiolaeth a chynghor i gefnogi'r broses cynllunio morol yn unol ag egwyddorion SMNR.

Mae CNC o'r farn bod Datganiad Ardal Forol yn cynnig ffordd ddefnyddiol iawn i ddatblygu tystiolaeth berthnasol i helpu i roi polisi CMCC ar waith yn unol ag egwyddorion SMNR. Cyfrannodd aelodau WMAAG hefyd at weithdy byr ar Ddatganiadau Ardaloedd Morol eleni a bydd CNC yn para i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ymchwilio i'r cyfleoedd i gefnogi SMNR trwy gynlluniau morol dros y misoedd nesaf.

Mae CNC a Llywodraeth Cymru'n datblygu naratif i ddisgrifio sut y bydd y broses cynllunio morol yn rhyngweithio â Deddf yr Amgylchedd. Unwaith y daw i ben, caiff ei rannu'n eang, gan gynnwys gydag WMAAG.

Cadarnhaodd fod angen cadw at egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy hyd at y ffin 12m. Roedd yr aelodau'n falch o weld y gwaith oedd yn cael ei wneud gydag SMNR er bod rhai'n poeni y gallai'r holl bolisiau ategol yn y cynllun drafft droi allan i fod yn rhwystr i egwyddorion SMNR. Cadarnhaodd un aelod y bydd gofyn i awdurdodau lleol perthnasol (RPA) gadw at ddyletswyddau'r '5 ffordd o weithio' yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG) ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru eu symleiddio i sicrhau cysondeb yn ogystal â chydymffurfiaeth.

6. Economaidd-gymdeithasol

Soniodd PC am waith diweddar Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi economaidd-gymdeithasol ar gyfer CMCC a chadarnhaodd y câi papur manwl ei baratoi maes o law.

Cafwyd trafodaethau ynghylch sut i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau. Bydd angen gwneud rhagor o waith i edrych sut y caiff y polisiâu yn y cynllun eu rhoi ar waith, gan roi sylw i ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn ogystal â rhai amgylcheddol. Bydd hynny'n golygu gweithio gyda rhanddeiliaid, ystyried arferion cynllunio ar y tir a datblygu astudiaethau achos.

7. Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRA) (Papur 4)

Cyflwynodd PJC adolygiad newydd o'r cynigion polisi o ran yr SRA i aelodau. Mae'r Ardaloedd hyn yn cefnogi defnyddio a datblygu adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Maen nhw'n erfyn cynllunio fydd yn gwella dros amser (gan gefnogi yn ei dro'r gwaith o ddatblygu a chaboli cynlluniau morol). Mae lefel y manylder ar gyfer diogelu pob sector yn adlewyrchu'r gwaith hwn.

Er derbyn na fydd pwysoliad y polisi'n newid, cafodd aelodau hi'n anodd dychmygu goblygiadau ymarferol y newidiadau gafodd eu cynnig heb ddod â'r rhannau polisi cyffredinol a sectorol ynghyd. Dywedodd rhai hefyd, o ran y polisi ar forlynoedd llanw, mae'n anodd cloriannu rhai effeithiau heb wybod maint y datblygiad yr oedd Llywodraeth Cymru a'r cynllun yn ei gefnogi. Mae aelodau'n dal i boeni bod yr Ardaloedd hyn yn dal i roi mwy o sylw i dwf glas nag i'r amgylchedd/SMNR a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth newidiol ac ati. Maen nhw'n awgrymu nad yw ffocws o'r fath yn gyson â'r weledigaeth sydd wedi'i datgan nag ag amcanion y cynllun. Nododd aelodau'r awgrym i ohirio cynhyrchu SRAs (i'w cyflwyno trwy ddogfennau ategol) tan ar ôl cyhoeddi'r cynllun ac ar gyflymder sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth sydd ar gael. Ni fynegwyd barn am hyn.

Gofynnodd PJC i aelodau gyflwyno sylwadau pellach i swyddogion ar ôl cael amser i feddwl am y cynigion at MarinePlanning@gov.wales

8. Trawsffiniol

Cyflwynodd RM ddadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yn delio â materion trawsffiniol a beth oedd yn cael ei wneud gyda'r ymatebion hyn. Dywedodd RM hefyd am y cydweithio a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnal â gweinyddiaethau eraill.

Cafwyd cwestiynau gan aelodau am y Datganiad Polisi Morol (MPS) sy'n datgan mewn troednodyn y câi Cyd-gynlluniau Aber eu paratoi ar gyfer Hafren a Dyfrdwy ac am yr ymgynghoriad ar gynllunio isranbarthol. Dywedodd RM wrth yr aelodau am y cyfyngiadau sy'n deillio o'r ffaith bod cynlluniau gweinyddiaethau eraill wedi cyrraedd pwyntiau gwahanol yn eu datblygiad ac y bydd cyd-gynlluniau'n esblygu dros amser.

9. Sesiwn gweithdy - blaenoriaethau o ran tystiolaeth ar gyfer cynlluniau morol (Papur 5)

Dywedodd AJ wrth yr aelodau am y dystiolaeth sydd wedi'i chasglu a beth ydym yn ei wneud i'w gwneud yn hygyrch. Esboniodd AJ hefyd ein bwriad i greu rhestr o anghenion penodol cynlluniau morol - y rhai sydd wedi'u targedu a'r rhai ymarferol a chynhaliwyd 2 weithdy i ofyn i aelodau:

- Ydyn nhw'n cytuno â defnyddio'r rhestrau hyn?
- Ydyn nhw'n cytuno â'r categorïau?
- Ydyn nhw'n cytuno mai dyma'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gynlluniau morol?
- Beth maen nhw'n feddwl yw'r dystiolaeth gymdeithasol ac economaidd sydd ei hangen a sut y dylid eu nodi / ymgorffori? a
- Y diweddaraf am yr adroddiad ar dystiolaeth morol Cymru.

Nododd yr aelodau y dull rhestru o weithio a chytuno i anfon sylwadau at MarinePlanning@gov.wales.

10. Cyflwyniad ABPMer - Prosiect defnyddio adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy EMFF

Disgrifiodd NF o ABPMer nodau'r prosiect:

- Gwybodaeth ar gyfer cynlluniau gofodol morol;
- Diwallu'r angen am ddata a gwybodaeth sy'n addas i'r diben; a
- Cefnogi ymdrechion i warchod amgylchedd y môr a defnyddio ynni'r llanw, ynni'r tonnau ac adnoddau dyframaethu'n gynaliadwy.

Roedd yr aelodau'n gefnogol iawn i'r prosiect gan gynnig anfon atynt eu cronfeydd o ddata a gwybodaeth ymchwil. Cadarnhaodd NF fod data am infertebratâu ac algâu yn cael eu casglu. Canolbwyntiwyd ar gasglu data mewn 3 maes ond mae ymchwil wedi'i chynnal ym mhob maes adnoddau. Cadarnhaodd NF hefyd na fydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei chyhoeddi ond nodir ble bydd modd cael gafael arni.

11. Penderfyniadau ynghylch rhoi'r cynllun morol ar waith

Cafwyd trosolwg gan PJC o'r gwahanol fathau o benderfyniadau a wneir gan awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol. Dywedodd hefyd wrth y grŵp am y Grŵp Penderfynwyr Awdurdodau Perthnasol a sefydlwyd i sicrhau ein bod yn deall i beth y mae awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio'r cynllun a sut, a beth yw eu hanghenion wrth inni fynd yn ein blaenau i roi'r cynllun morol ar waith.

Gofynnodd yr aelodau sut y byddwn yn gwneud yn siwr nad yw gweithgareddau ar y tir yn cael effaith andwyol ar y cynllun neu'n sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth iddo? Nodwyd hefyd y bydd systemau cynllunio (tir a môr) yn gorgyffwrdd. Bydd hynny'n her a gofynnwyd a fyddai hyn yn rhywbeth y byddai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn mynd i'r afael ag e. Dywedwyd wrth swyddogion i gysylltu â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a threfnu apwyntiad i roi cyflwyniad am CMCC.

12. Sesiwn gweithdy - Monitro ac adrodd hyn y fframwaith

Dyweddodd LS y carai Llywodraeth Cymru ddatblygu ffordd o fonitro ac adrodd fydd yn golygu trafod â phob rhan o'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus a chydweithio â rhanddeiliaid i ddysgu am brofiadau pobl eraill o fonitro ac adrodd ar bolisi cynllunio.

Cyfeiriodd aelodau at effeithiau hyn ar yr adnoddau i fonitro ac adrodd ar drwyddedau. Arweiniodd LS weithdy i ystyried 4 maes polisi, Agregau, Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, Morweddau a Thwristiaeth a Hamdden (diogelu). Gwnaeth LS hefyd wahodd yr aelodau i ymuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fonitro ac Adrodd.

13. Crynodeb o'r dydd

Gwnaeth PD ddiolch i swyddogion a'r aelodau am ddod i'r cyfarfod ac am rannu'u barn. Gofynnodd hefyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw gwestiynau pellach i'r Tîm Cynllunio Morol.